Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Esgyll Siarcod

Ionawr 2023

www.senedd.wales

# 1. Y cefndir

## Bil Esgyll Siarcod Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Esgyll Siarcod[1] (y Bil) gerbron Tŷ'r Cyffredin fel Bil Aelod Preifat, gan Christina Rees AS, gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 15 Mehefin 2022. Fe'i noddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

**2.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae'r Bil:

> *"... prohibits the import and export of detached shark fins. There is an exemption if the import or export of a detached shark fin is for purposes connected with the conservation of sharks.*
>
> *It also includes amendments to retained EU law, in particular to Regulation 185/2003, on the removal of shark fins on board vessels."*[2]

**3.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn egluro nad yw'r Bil "yn gwahardd gwerthu na bwyta esgyll siarcod" yn y DU, ond mae'r mesur yn rhoi sicrwydd bod y siarc cyfan wedi'i lanio a'i fasnachu yn hytrach nag "esgyll siarcod a ddatgysylltwyd, h.y. y rhai a gafwyd drwy'r arfer o dynnu esgyll siarcod."[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Tachwedd 2022. Mae cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i drefnu ar gyfer 20 Ionawr 2023.[4]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru ar gyfer unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol (darpariaeth berthnasol) y Senedd. Mae Rheol Sefydlog 29.2(ii) yn darparu bod yn rhaid gosod memorandwm mewn perthynas â Bil Aelod Preifat perthnasol ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo.

[1] Bil Esgyll Siarcod, fel y'i cyflwynwyd (Bill 139)
[2] Bil Esgyll Siarcod: Nodiadau Esboniadol, paragraffau 1–2
[3] Bil Esgyll Siarcod: Nodiadau Esboniadol, paragraff 4
[4] Bil Esgyll Siarcod: Cyfnodau

**6.** Ar 25 Tachwedd 2022 gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[5]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 16 Ionawr 2023.[6]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Mae'r Gweinidog yn datgan bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 1, cymal 2, a chymal 3(5) o'r Bil, a'i Atodlen, gan eu bod yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion lles anifeiliaid a chadwraeth:

- mae cymal 1 yn gwahardd mewnforio ac allforio esgyll siarcod datgysylltiedig neu bethau sy'n cynnwys esgyll siarcod;
- mae cymal 2 yn diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1185/2003 ar dynnu esgyll siarcod ar fwrdd llongau;
- mae cymal 3(5) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig wneud rheoliadau ar gyfer darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil yn dod i rym; ac
- mae'r Atodlen yn amlinellu'r broses i ymgeiswyr wneud cais am dystysgrif esemptio o'r gwaharddiad yng nghymal 1, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod priodol i wrthod a dirymu tystysgrifau o'r fath, a gosod cosbau ariannol ar ymgeiswyr am ddarparu gwybodaeth gamarweiniol.[7]

**9.** Mae'r Gweinidog yn nodi nad oes angen cydsyniad ar gyfer gweddill cymal 3 gan ei fod yn "gymal anweithredol ac nad oes ganddo unrhyw effaith gyfreithiol y tu hwnt i gychwyn y Bil a chadarnhau graddau, cwmpas y rheoliadau a'r enw".[8]

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Esgyll Siarcod, Tachwedd 2022
[6] Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Esgyll Siarcod, Rhagfyr 2022
[7] Memorandwm, paragraffau 7–19
[8] Memorandwm, paragraff 16

**10.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o dri chymal y Bil a'i Atodlen.[9]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**11.** Mae'r Gweinidog o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru am y rhesymau a ganlyn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nodau ac amcanion y Bil, gan gydnabod yr angen am y darpariaethau hyn i wahardd esgyll siarcod a gafwyd drwy arferion anfoesegol "tynnu esgyll siarcod" rhag mynd i mewn i farchnadoedd y DU. Mae cadwraeth siarcod, a chadwraeth forol yn ehangach, yn bolisi allweddol i Lywodraeth Cymru a fy marn i yw bod y Bil hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn ar lefel fyd-eang. Mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn anfon neges allweddol bod tynnu esgyll siarcod yn annerbyniol ac y byddai Cymru'n hoffi ymbellhau oddi wrtho."*[10]

**12.** Mae'r Gweinidog yn dweud "nad oes Bil tebyg gan y Senedd wedi'i gynllunio yn y tymor byr na'r tymor canolig" a:

> *"... phe bai'r Bil yn mynd rhagddo heb Gymru neu ar amserlenni gwahanol, mae perygl y bydd bwlch rheoleiddiol rhwng y Bil yn dod i rym yng ngweddill y DU a Bil tebyg gan y Senedd yn dod i rym. Gallai hynny olygu bod porthladdoedd Cymru yn cael eu targedu ar gyfer mewnforio, gyda'r broses o ddosbarthu ymlaen i weddill y DU yn anodd ei hatal."*[11]

**13.** Mae'r Gweinidog o'r farn mai "Bil ledled y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i ddarparu dull rheoleiddio cyson ar fewnforio ac allforio esgyll siarcod datgysylltiedig ac arferion tynnu esgyll siarcod yng Nghymru."[12]

**14.** Mae'r Gweinidog yn egluro bod DEFRA wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 3, pan fo Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cytuno i amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y

---

[9] Bil Esgyll Siarcod: Nodiadau Esboniadol, Atodiad - Rhychwant tiriogaethol a'u cymhwyso yn y Deyrnas Unedig
[10] Y Memorandwm, paragraff 22
[11] Y Memorandwm, paragraff 23
[12] Y Memorandwm, paragraff 23

darpariaethau perthnasol yn y Bil. Mae'r Gweinidog yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau hyn.[13]

**15.** Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi y gallai Bil gan y Senedd yn y dyfodol ddiwygio'r Bil, os caiff ei ddeddfu, i wneud darpariaeth mewn perthynas â thribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paragraff 7 o'r Atodlen i'r Bil yn rhoi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn maes datganoledig y gallai, yn ddamcaniaethol, gael ei glywed gan dribiwnlys datganoledig. Fodd bynnag, nid oes tribiwnlys datganoledig priodol ar hyn o bryd i glywed apeliadau o dan y Bil, a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol y DU i wneud darpariaeth ar gyfer tribiwnlys datganoledig o'r fath. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon i'r Bil wneud darpariaeth o'r fath, gan nodi y gallai Bil gan y Senedd yn y dyfodol ddiwygio'r Bil er mwyn dwyn apeliadau o'r fath gerbron tribiwnlys datganoledig yng Nghymru."*[14]

**16.** Yn ôl y Gweinidog, er bod DEFRA wedi dod i'r casgliad yr amcangyfrifir mai costau'r Bil i fusnesau'r DU yw £216,000 y flwyddyn, nid yw'n "bosibl darparu ffigur ar gyfer Cymru oherwydd data annigonol."[15]

**17.** Daw'r Gweinidog i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys darpariaeth berthnasol yn y Bil "i atal unrhyw risg o amwyseddau cyfreithiol sy'n ymwneud â mewnforio ac allforio esgyll siarcod yn y DU a ffurfio masnach anghyfreithlon o esgyll siarcod o fewn y DU."[16]

**18.** Mae'r Gweinidog yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau perthnasol yn y Bil.[17]

---

[13] Y Memorandwm, paragraff 24
[14] Y Memorandwm, paragraff 25
[15] Y Memorandwm, paragraff 33
[16] Y Memorandwm, paragraff 34
[17] Y Memorandwm, paragraff 34

# 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**20.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 9 Ionawr 2023.[18]

## Ein barn ni

**21.** Rydym yn nodi asesiad y Gweinidog bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 1, cymal 2 a chymal 3(5) o'r Bil, a'i Atodlen. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau pam, yn ei barn hi, ei bod yn briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog bod cymal 1, cymal 2 a chymal 3(5) o'r Bil, a'i Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

**22.** Nodwn asesiad y Gweinidog nad oes angen cydsyniad ar gyfer gweddill cymal 3 o'r Bil gan "nad yw'n weithredol" ac "nid yw'n cael unrhyw effaith gyfreithiol y tu hwnt i gychwyn y Bil a chadarnhau graddau, cwmpas a theitl y rheoliadau". Nodwn hefyd, fodd bynnag, ei bod yn ymddangos bod yr asesiad hwn yn cyferbynnu ag asesiad Llywodraeth Cymru o ddarpariaethau tebyg ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried ar hyn o bryd.[19] Credwn, i'r graddau y mae darpariaethau sy'n ymwneud â graddau a chwmpas y rheoliadau a theitl y Bil yn ymwneud â chymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, y dylai cydsyniad fod yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau hyn hefyd.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 3 o'r Bil yn ei gyfanrwydd.

**23.** Nodwn ddatganiad y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn, yn ddarostyngedig i ddim gweithdrefn seneddol, o fewn cymal 3 o'r Bil. Nodwn hefyd y bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau hyn.

---

[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023

[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), 3 Tachwedd 2022

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngddi â Llywodraeth y DU ar ddefnyddio pwerau cychwyn o fewn cymal 3 o'r Bil ar gael i'r Pwyllgor hwn.

**24.** Rydym hefyd yn nodi, ac yn dwyn sylw'r Senedd at fod Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol mewn maes datganoledig, yn rhinwedd y pwerau o fewn cymal 3 o'r Bil.

**25.** Rydym yn cydnabod datganiad y Gweinidog fod y Bil yn cyflwyno'r "cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i ddarparu dull rheoleiddio cyson ar fewnforio ac allforio esgyll siarcod datgysylltiedig ac arferion tynnu esgyll siarcod yng Nghymru." Er yn cydnabod bod diben ar wahân ar gyfer y Bil hwn, ein barn egwyddorol yw y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun ar faterion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, gan fod hwn yn faes polisi sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru fel y dywedodd ei hunan.[20]

**Casgliad 2.** Gan fod lles anifeiliaid yn faes blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, pe bai hi'n dymuno deddfu yn y maes hwn yn y dyfodol, dylai wneud hynny drwy gyflwyno deddfwriaeth yn y Senedd, yn hytrach na thrwy ddefnyddio Bil y DU drwy'r broses cydsynio deddfwriaethol.

[20] Gweler adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid, Hydref 2021